

# Gair Bach Bethlehem 34



www.bethlehem.cymru

(trydar) @GweBethlehem

Gwaelod-y-garth

Cyfnod y 'Covid-19' – rhif 34 - diwedd Mawrth 2022



Y bore Sul wedi Gŵyl Dewi, cawsom gwmi rhai o blant yr ysgol Sul yn yr oedfa am y tro cyntaf ers cyn y Nadolig– mewn gwasanaeth i ddathlu'n nawddsant a hefyd ganmlwyddiant Urdd Gobaith Cymru. Yr un mor bleserus oedd cael cynulleidfa ddi-fwgwd am y tro cyntaf ers tro (*isod*).



Yn y rhifyn hwn hefyd:

- Cyfraniadau i'r Wcrain a'r Urdd
- Neges Delwyn
- Oedfaon a Newyddion
- Teilwng yw'r Oen
- Penblwyddi
- Gweithgaredd
- Erthyglau
- Dau fardd cadeiriol

I weld pawb gyfrannodd yn unigol i'r gwasanaeth, a drefnwyd gan Heulwen, trowch i'r dudalen nesaf. (Mae'r oedfa gyfan hefyd i'w chael ar YouTube:

<https://youtu.be/8WCB0nV1YU>

# Yn dathlu'r canmlwyddiant a hel atgofion... dyma nhw!



Wll




Mabon a Trystan



Awen




Heulwen



Eifion



Huw



Sioned



Eilir




Dylan



Awen a Sara



Geraint ar fideo



Delwyn



Alys, Gwenni, Lea a Sara



## Mae "Teilwng yw'r Oen" ar waith!

"Ydych chi'n cofio y cyflwyniad cerddorol "Geiriau Olaf Dewi" a gyflwynwyd gan Gôr y Capel a chyfeillion ym mis Mawrth 2020, cyn y cyfnod clo cyntaf? Ydych chi'n cofio'r ymarferion, a'r hwyl a'r brwdfrydedd, a'r boddhad ar ddiwedd y perfformiad?"

Eilir Owen Griffiths oedd yn holi'r geiriau uchod – i'n denu ni gyd, fel aelodau Bethlehem, i ail-ymuno eto eleni ag ymarferion ar gyfer cyflwyniad o "Teilwng yw'r Oen" ar Ebrill 24 eleni, sef y Sul wedi'r Pasg -, a hynny yn y pnawn.



**Fel gwelwch o'r llun, mae Eilir eisoes wedi cychwyn yr ymarferion (a hynny'n syth bin bron ar ôl i CF1, dan ei arweiniad, gael llwyddiant yng nghyfres Côr Cymru).**

Mae yna daer erfyniad ar i bawb sy'n awyddus i ymuno (dydi hi ddim rhy hwyr! Cliciwch ar y ddolen isod i nodi eich bwriad, os nad ydych chi eisoes wedi gwneud hynny:

<https://forms.gle/9dWyxqwzucwqryJN9>

Bydd yna ymarferion cyson ar ôl yr oedfaon, o hyn hyd y perfformiad ar:

**24<sup>ain</sup> Ebrill** – (Ymarfer prynhawn) ac yna'r perfformiad gyda'r hwyr (5.00)

*(Bydd cyfle i'r plant a'r ieuenctid hefyd fod â rhan yn y cyflwyniad, a bydd Eilir yn trafod hynny ymhellach gyda'r rhieni yn yr Ysgol Sul).*

*(Peidiwch poeni os na allwch brintio'r copïau – mae yna beiriant yn y festri!)*

## Yn ôl i'r drefn arferol!

Ar fore Sul, Mawrth 13, (yn dilyn llacio'r cyfyngiadau) gwelwyd y plant yn dod ymlaen i adrodd eu hadnodau am y tro cyntaf ers talpe! (gan gynnwys un sydd ddim llawn cyn uched â'r sedd fawr!)

Dyma nhw, (isod), gyda'r cennad, Rhys ab Owain, AS, yn gwrando arnyn nhw. Fel y nododd Rhodri ar y



bore, hwn, o bosib, oedd y tro cyntaf erioed i bulpud Bethlehem, gael aelod seneddol fel cennad (os na wyddoch chi am un arall fu yma!)

Ac (ar y dde) – dyma waith yr Ysgol Sul ar yr un bore.

Bu'r aelodau'n creu baner sydd wedi dod yn fwy cyfarwydd i ni bellach – sef baner gwlad Wcráin.



## “Lleisiau o’r Gorffennol.”



“Fe’n danfonwyd ni i farw dros yr Ymerawdwr a’r genedl, ac ar y dechrau roedd pawb yn credu hynny. Ond pan roedd y milwyr yn marw, roedd y rhai ifanc yn galw ar eu mamau, a’r rhai hŷn yn galw enwau eu plant. Chlywais i neb yn galw ar yr Ymerawdwr, na’r genedl.” - Geiriau Nobuo Nishizaki, aelod o fyddin Japan yn yr ail ryfel byd.

Ar ddechrau’r oedfa ryw fis yn ôl (pan roedd Arlywydd Rwsia yn daer nad oedd yn bwriadu ymosod ar yr Wcráin) fe wrandawon ni ar gân o eiddo Sting, sef “Russians”. Cân oedd yn cynnwys y geiriau “There’s no such thing as a winable war” a “I hope the Russians love their children too”, a byddai’n anodd anghytuno gyda’r naill frawddeg na’r llall, ond mae gan Sting gân arall sy’n cyhoeddi “History can teach us nothing” - a’r tro hwn dwi am fentro anghytuno gyda un o’r harwyr cerddorol, a dweud bod gan lleisiau’r gorffennol lawer iawn i ddysgu i ni. Lleisiau fel Nobuo Nishizaki, Wilhelm

Simonsohn, a Vera Nikitina. Mae Vera bellach yn 87 mlwydd oed, ond roedd hi’n blentyn pan ymosododd lluoedd Hitler ar Rwsia, a’i chartre’n Leningrad. Amgylchynwyd y ddinas, a chollwyd 800,000 o bobl rhwng y bomio, yr oerfel a’r newyn.

“Dwi ddim moyn cofio’r hyn a ddigwyddodd, na siarad amdano” meddai, mae’n rhy galed. Dwi ddim eisiau i neb ddiodeff y fath beth byth eto. Pan dwi’n siarad am fy mhentyndod, dwi’n dechrau crio. Dwi ddim eisiau crio rhagor, dwi eisiau byw gweddill fy mywyd mewn heddwch, a gweld y daioni sy’n y byd yma. Dwi ddim eisiau gweld rhagor o bethau erchyll. Mae’n flin gyda fi...”

Merch fach ymhlith y mieri o’dd Vera, peilot mewn awyren Almaenaidd oedd Wilhelm Simonsohn, un oedd yn dyst ym 1939 i’r ymosodiadau cyntaf yna ar wlad Pwyl, a hynny’n ddiogel uchel uwchben y dinistr. “Wrth hedfan yn yr awyr roedd y cyfan yn teimlo fel antur fawr” medde fe, ond newidiodd hynny pan gerddodd y peilot ifanc mewn i’r hyn oedd yn weddill o ddinas Warsaw, gan weld drosto’i hun y dinistr a achoswyd gan fomiau’r awyrennau. Mae Wilhelm, sy’ nawr yn gant oed, yn dal i gofio’r miloedd o gyrff a welodd yn gorwedd o’i gwmpas, ac mae’n dal i gofio gwynt y cyrff oedd yn pydru o dan y rwbel. “Fe wnaeth y fath argraff arna’i” meddai, “wnes imi benderfynu yn y fan a’r lle byswn i byth yn gollwng bom ar fod dynol byth eto. Fe wnaeth y dinasoedd yna o dân Heddychwyr ohono’i, ac wrth i’r blynyddoedd fynd heibio, dwi’n mynd yn fwy ac yn fwy o heddychwyr.”

Ydy hanes yn gallu dysgu rhywbeth i ni? I mi, does dim amheuaeth, does ond angen gwrando ar eiriau’r rhai a ddiodeffodd, ac a achosodd ddiodeffaint. “Gwrando, gwrando ar y geiriau.”

Y tristwch mawr yw bod y rhai sydd angen gwrando - ddim moyn clywed.

*Delwyn.*

*Dyma’r oedfaon dros yr wythnosau nesaf*

## Suliau Bethlehem – hyd ddiwedd Mehefin

*(am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol)*

### Mis Mawrth

20 - Parchg Robert Owen Griffiths  
27 - Parchg Ganon Aled Edwards

### Mis Ebrill

3 - Parchg Gethin Rhys  
10 - Parchg Lona Roberts  
15 – Gwener Y Groglith (Gwasanaeth byr)  
17 - Parchg Dafydd Andrew Jones  
(Sul Y Pasg)  
24 - Delwyn Siôn + Perfformiad o  
'Teilwng yw'r Oen' (5.00 o'r gloch)

### Mis Mai

1 - Delwyn Siôn  
8 - Cymorth Cristnogol (Heulwen)  
15 - Parchg Glyn Tudwal Jones  
22 - Parchg Ddr R. Alun Evans  
29 - Parchg Dafydd Andrew Jones

### Mis Mehefin

5 - Delwyn Siôn (Y Sulgwyn)  
12 - Parchg Gethin Rhys  
19 - Huw Lloyd  
26 - Parchg Ifan Roberts

Cyfarfu Diaconiaid Bethlehem ddiwethaf ar y 14eg o Chwefror 2022.

- Bryd hynny 'roedd Llywodraeth Cymru wedi awgrymu y byddai diosg defnydd o fygydau o fewn manau addoli o'r 28ain o Chwefror ymlaen.  
Gwyddom erbyn hyn bod hynny wedi ei gadarnhau, a bod disgwyl bellach i'r cyfan o'r rheoliadau a fabwysiadwyd oherwydd lledaeniad Cofid 19 gael eu diddymu erbyn diwedd mis Mawrth 2022.  
Ar sail y newidiadau arfaethedig, gwyddoch ein bod yn raddol bach yn dod yn ôl i'r drefn "arferol" o gynnal oedfaon ac Ysgol Sul, a gobeithio y bydd modd cymdeithasu gyda phaned o de wedi oedfa gymun yn dychwelyd yn fuan. Mynegwyd diolch i'r aelodaeth am gyd-gerdded ar y daith o ddilyn rheoliadau a chefnogi yn gyson yr hyn oedd yn cael ei gynnis o Sul i Sul, boed yn rhithiol, yn recordiad neu'n fyw'n y capel.
- Gwerthfawrogwyd parodrwydd y rhieni i gynnal yr Ysgol Sul yn y Ffestri yn unig (tan ddechrau mis Mawrth eleni), a dyna braf oedd gweld llawenydd y niferoedd plant oedd yn mynychu o gael bod yn ôl yng nghwmni eu ffrindiau.
- Mae dyblygwr / sganer yn y Ffestri bellach er hwyluso trefniant a gwaith yr Ysgol Sul.
- Mae nifer o blant bellach wedi symud 'mlaen i'r ysgolion uwchradd, a bydd galw am greu darpariaeth priodol ar eu cyfer, megis CAIB (Clwb Annibynnol Ieuencid Bethlehem) a fu mor llwyddiannus yn y gorffennol.
- Eisoes eleni mae Delwyn Sion wedi bedyddio dau o blant y capel, ac yn sicr bydd galw arno i wneud hynny eto dros y misoedd nesaf yma.
- Nodwyd bod gwahoddiad wedi dod oddi wrth Eilir Owen Griffiths i ail-ffurfio Côr y Capel, a fu mor ddiwyd cyn y cyfnod clo cyntaf yn cyflwyno "Geiriau Olaf Dewi", gyda'r bwriad o gyflwyno "Teilwng yw'r Oen", a hynny ar Sul y Pasg eleni. [Bellach gwyddom mai ar y Sul wedi'r Pasg (24ain o Ebrill) y bydd hyn yn digwydd, ac mae'r ymarferion wedi cychwyn!]
- Cytunwyd y byddid yn cynnal oedfa yn y capel ar ddydd Gwyl Dewi Sant am 10:00 a.m. a nododd y Parchedig R Alun Evans ei barodrwydd i drefnu'r oedfa.
- Derbyniwyd nodiadau o gyfarfod o'r Gweithgor Addoli a gynhaliwyd ar y 7fed o Chwefror 2022.  
Cydnabuwyd gwaith Delyth Evans (Y Barri) fel Ysgrifennydd y Cyhoeddiadau dros y pedair blynedd ddiwethaf, a nodwyd y byddai angen olynydd iddi o ddiwedd 2022.  
Trafodwyd nifer o wahanol ddulliau o drefnu a chynnal oedfaon, gyda chymysgedd o wahoddedigion a chyfraniadau o du'r aelodau yn fodd amgen a mentrus o lenwi'r Suliau, e.e. megis ar ddiwrnod o wanwyn neu haf, cynnal taith gerdded leol a dychwelyd am baned o de i'r Ffestri wedi hynny a chynnal oedfa fer bryd hynny.
- Cytunwyd y byddid yn cynnal digwyddiadau dathlu 150 mlynedd yr adeilad presennol yn ystod 2023, gan mai ym mis Mehefin 1873 y cynhaliwyd yr oedfa gyntaf wedi iddo gael ei adeiladu o'r newydd, er i'r garreg ar dalcen y capel ddatgan y dyddiad adeiladu fel 1872!
- Cytunwyd na fyddid yn agor drws "Drws Agored" tan dymor Hydref 2022, a mynegwyd diolch i'r Parchedig R Alun Evans am y paratoi serch y newid amserlen.
- Nodwyd bod Cwmni Parrog a chais ar i "... *Bethlehem recordio emynau ar gyfer cynllun archif Caniadaeth y Cysegr*", gyda'r recordio i'w wneud ym mis Gorffennaf 2022.
- Cytunwyd i wahodd yr aelodaeth i ystyried a dewis elusen leol wahanol i'w chefnogi o dymor 2022/23 ymlaen. Byddid yn trefnu pleidlais ar ddechrau mis Gorffennaf 2022.
- Mae'n fwiad gwahodd y teuluoedd sy'n cefnogi "Plan International" i drafod parhau gyda'r ymgyrch, neu ddewis elusen arall i'w chefnogi.
- Nodwyd nad oedd darpariaeth "Te yn y Tabernacl" wedi ail-gychwyn eto.
- Cytunwyd y byddid yn ail-ddechrau gwahodd cyfraniadau i'r Banc Bwyd o fis Ebrill 2022 ymlaen.
- Cydnabuwyd derbyn llythyr oddi wrth Urdd Gobaith Cymru yn diolch am y rhodd ariannol tuag at gartrefu ffoaduriaid o Affganistan. (**gweler Tudalen 12**)
- Byddid yn trefnu cynnal un digwyddiad cymdeithasol yn y Ffestri (Swper Haf?) cyn dechrau gwyliau haf yr ysgolion.

- Yn sgil y cynnydd ym mhreis nwy a thrydan awgrymwyd y dylid ystyried agor y Festri ar gyfer trigolion y pentref yn ystod y gaeaf nesaf, gyda darpariaeth ar gyfer paratoi te a choffi ar eu cyfer a chynnig lle clyd i dreulio rhyw orig neu ddwy.
- Gwerthfawrogyd gwaith Ifan Roberts yn cywain “Gair bach Bethlehem” at ei gilydd trwy’r cyfnod clo, a hynny er hwyluso cadw cyswllt a’r aelodaeth a rhannu gwybodaeth.
- Byddai Wyn Jones yn falch o dderbyn unrhyw wybodaeth a fyddai’n ddilys i’w gynnwys ar dudalennau “Archif” y capel ar y wefan.
- Nododd Delwyn Sion ei fwriad i ail-gydio yn ei ymweliadau cyswllt wyneb yn wyneb â rhai o’r aelodau wedi’r Pasg.
- Nododd y Trysorydd bod cyfrifon 2020 /21 wedi eu gwirio gan Lowri Clement a Huw Lloyd, yn unol a’r drefn flaenorol, gydag aelod a Diacon yn rhan o’r broses.  
Mynegwyd gwerthfawrogiad o ofal y Trysorydd (a’r rhai fu’n ei gynorthwyo) dros gyfrifon y capel, ac yn ei dro mynegodd y Trysorydd ei werthfawrogiad o gymorth Ian Hughes, ac yn benodol yn ddiweddar yng nghyd-destun ail-drefnu tariff cost ynni’r capel.
- Cadarnhawyd bod cyfraniad o £1000 yr un wedi eu cyflwyno i’r elusennau canlynol:-
  - Canolfan y Drindod, Caerdydd (ein dewis elusen)
  - Banc Bwyd Caerdydd (ein helusen barhaol)
  - Urdd Gobaith Cymru (er budd lletya ffoaduriaid o Afghanistan).
 Hefyd bod £500 wedi ei gyflwyno i Gronfa Cymorth Cristnogol er budd ffoaduriaid o Afghanistan.
- Cadarnhawyd bod cyfrifon y flwyddyn gyfredol [2021/22] hyd at Ragfyr 2021 yn “dal eu tir”, er y dylid nodi y gall colledion ymysg yr aelodaeth adael bwllch yn y cyfrifon yn y dyfodol.
- Cytunwyd y dylid cymryd camau i baratoi cynllun i baentio seddau’r Galeri.
- Cytunwyd y dylid edrych ar gynllun goleuo newydd yn y capel, a fyddai yn hygyrch i’w gynnal ac yn hawdd i newid y bylbiau.
- Nodwyd y byddai angen adolygu’r polisïau a’r drefn wirio er sicrhau diogelwch plant ac oedolion bregus o fewn y capel.
- Hefyd nodwyd y byddai ymgyrch yn cael ei lawnsio yn fuan gan Undeb yr Annibynwyr yn annog capeli i ddod yn “Eglwysi Dementia-gyfeillgar”. Bellach gwyddom y bydd sesiwn arbrofol yn cael ei chynnal ym Methlehem, Gwaelod-y-garth ar bnawn Sadwrn yr 2il o Ebrill, dan nawdd Cyfundeb Dwyrain Morgannwg, yng nghwmni Delwyn Sion, y Parchedig R Alun Evans a Sian Meinir.
- Nodwyd bod materion lechyd a Diogelwch (Cyngor Caerdydd) wedi amharu ar y defnydd o faes parcio Ysgol Gynradd Gwaelod-y-garth ar y Sul. Bellach, gyda chydysyniad parod y Pennaeth, mae trefniant amgen yn ei le.
- Bydd Bethlehem yn gyfrifol am drefnu un cyfarfod dan nawdd Cylch (Llenyddol) Cadwgan o gwmpas cyfnod y Pasg 2022, y dyddiad i’w gadarnhau.
- Awgrymwyd y dylid ystyried creu gardd flodau ar y lawnt o flaen y Festri, gan annog plant yr Ysgol Sul i fod a gofal amdani.
- Hefyd awgrymwyd y dylid ystyried cael byrddau a chadeiriau newydd ar gyfer y Festri - rhai ysgafnach a mwy hygyrch i’w symud.
- Nodwyd bod Undeb yr Annibynwyr yn diwygio ei gwefan, a bod y capeli i gyd, gan gynnwys Bethlehem, Gwaelod-y-garth, wedi ei gwahodd i gyfrannu erthygl fer ar gyfer ei chynnwys arni.
- Cynhelir cyfarfod rheolaidd nesaf y Diaconiaid ar y 13eg o Fehefin 2022.

*Rhodri-Gwynn Jones  
Ysgrifennydd, Bethlehem, Gwaelod-y-garth.*

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu i’r rhifynnau o

## Gair Bach Bethlehem

dros yr holl fisoedd.

A diolch i chi am ei ddarllen!

Deunydd ar gyfer y rhifyn nesaf at Ifan erbyn Mai 11 2022: [tycnau@aol.com](mailto:tycnau@aol.com)

## Derbyn Brenda a Cedric i'n plith



Rhwng y piler a'r mygydau, prin gallwch chi adnabod Brenda a Cedric Jones, Radur, o'r llun ar y chwith, y bore cawson nhw eu derbyn yn aelodau ym Methlehem. Felly, dyna roi cynnig arall arni, (*ar y dde*) yn ddi-fwgwd tu allan ar fore eithriadol o oer. Croeso cynnes i'r ddau – er gwaetha'r rhewynt, y piler a'r mwgwd!



## Ymdeoliad Tanya



Dymunwn ymdeoliad dedwydd i Tania Evans, Gwaelod-y-Garth, sydd wedi bod yn athrawes yn yr ysgol gynradd leol yn y Gwaelod am dros 26 mlynedd. Bu bron i ni gollu'r newydd am yr achlysur a rhaid diolch i'r cyfryngau cymdeithasol am gyhoeddi'r llun ar y chwith, ac i lygaid craff golygydd Tafod Elai am ei 'sbotio'!

Yn ffodus i ni, mae Tanya yn parhau i gyfeilio yn ein hoedfaon, fel arfer. A diolch amdani.

## Arddangosfa Anthony

Gawsoch chi gyfle i ymweld ag arddangosfa ddiweddaraf Anthony Evans, Yr Eglwys Newydd? Mae e'n un rydyn ni bellach bron a'i hawlio fel "arlunydd preswyl" ym Methlehem. Bu ganddo arddangosfa, yn ei oriel a gweithdy, lawr yn Nhreganna o ddechrau Chwefror hyd ddechrau Mawrth. Os na fuoch chi, mynnwch wybod pryd mae'r nesaf!



## Cydymdeimlad

Rydyn ni'n cydymdeimlo â'r canlynol:

- **Nerys Williams, Radur**, wedi iddi golli ei modryb, Mrs Mary Wynne Jones, Dolgellau – sef chwaer ei thad.
- **Wyndham Richards, Radur**, wedi iddo golli ei fodryb (chwaer ieuengaf ei fam) yn Llundain.

## Anfonwn ein Cofion ...

... at yr aelodau sydd heb allu ymuno â ni mor gyson ag y bydden nhw'n dymuno:

- \* Eurfryn Thomas yng Nghartref Heol Don
- \* Ann Williams Yr Eglwys Newydd
- \* Beti Williams, Radur
- \* Kay a David Clement, Ffynnon Taf
- \* A da deall bod June Lloyd, Radur, yn gwella ar ôl bod yn anhwylyd yn ddiweddar.

## I Lanbrynmair (*Mis Chwefror*)



Alun â'r llun o lorwerth Peate a'i frawd Dafydd

Mi wnaeth y cwrdd merched ail-gydio yn ei rhaglen ar bawn Mawrth 8fed o Chwefror, pan ddaeth criw da o ferched, ac ambell ddydd, at ei gilydd i wrando ar Y Parchedig Ddr R Alun Evans yn trafod **'The most hated man in Wales'**. Roedd y teitl yn amlwg wedi codi diddordeb !

Agorwyd y cyfarfod gan Rhian Huws yn darllen cerdd o'r gyfrol 'Cymru mewn 50 cerdd', sef 'Cardiff Born'. Cawsom weddi briodol gan Delyth Evans (Y Barri) yn datgan diolch, yn arbennig am y ffaith ein bod yn ôl gyda'n gilydd.

Dechreuodd Alun drwy adrodd hanes achlysur teuluol y llynedd pan aeth teulu'r Evansiaid i gyd lan i Sir Drefaldwyn i ddathlu penblwydd priodas diemwnt Alun a Rhiannon. Er i'r wythnos gynnwys gwahanol weithgareddau, fe benderfynwyd fod un diwrnod lle bydde'r teulu cyfan yn mynd gyda'i gilydd ar daith lan drwy ardal Beulah, Cwm Nant yr Eira ac, wrth gwrs, ymlaen i Lanbrynmair. A phinacl y daith oedd mynd i weld cartref Dr Iorwerth Cyfeiliog Peate. Wedi cyrraedd y tŷ gyda'r plac tu allan, dyma'r tri char yn parcio yn drefnus. Yn syth bin dyna berchennog y tŷ yn rhuthro allan – gwr oedd yn gyffelyb iawn ei olwg i'r hen Gaptin Mainwaring o Dad's Army gyda llais digon tebyg hefyd - yn gweiddi mewn Saesneg mawr pam oedden nhw wedi parcio o flaen ei dŷ e. Roedd y teulu mewn bach o syndod am na welen nhw unrhyw reswm amlwg pam na ddylen nhw barcio yn y fan a'r lle. Dyna egluro pwrpas eu presenoldeb a'u bod wedi dod i weld cartref yr enwog Dr Iorwerth Peate. Dyma'r dyn bach pigog yn gweiddi *'Oh!!!, the most hated man in Wales'*.

Wel, os fuodd hances goch i darw erioed, dyma fe. Fe gafodd y dyn wybod mewn cyfrolau pam fod y gwr, a gafodd ei fagu yn y tŷ hwn, yn sicr ddim yn haeddu cael ei alw y fath beth, ac fe gafodd e restr di-ri o gampau yr arwr. Mae'n debyg fod y boi bach wedi cael ei gamarwain ar ryw adeg gan rhywbeth wedodd rhywun wrtho, ac yn ei dwpdra wedi cymryd hyn yn wirionedd. Fe aeth nôl fewn i'w dŷ yn reit dawel mae'n debyg.

Ond, gofynnodd Alun, a oedd hyn yn gamarweiniad llwyr?. Cawsom glywed sut oedd yr Iorweth ifanc, a'i frawd hŷn, Dafydd, yn byw tu allan i bentre Lanbrynmair, a'i bod yn blant nad oedd yn cymysgu llawer gyda plant y pentre. Dangosodd Alun lun o'r ddau wedi gwisgo yn smart iawn – na, nid plant y pentre oedd rhain!. Roedd yn blentyn gwahanol ac wrth iddo dyfu'n ddydd, fe wnaeth hynny ddim newid. Roedd ei dad yn saer coed, ond roedd yntau wedi cael cyfleoedd addysg, wedi astudio yng Ngholeg Aberystwyth a wedi troi allan yn fardd ac yn llenor. Fe enillodd sawl cadair eisteddfodol ac roedd ddiddordeb mawr gydag e mewn hanes ac archeoleg. Yn 1927 fe geisiodd am swydd yn yr Amgueddfa Genedlaethol, ond ni chafodd ei benodi, roedd honiad ei fod yn rhy ffoen uchel. Roedd e'n dal i fod yn wahanol!. Er hyn, fe fu'n llwyddiannus mewn swydd 'mwy addas' yn fuan ar ôl hyn. Roedd gan Peate ddiddordeb mawr mewn amgueddfeydd awyr-agored a'i freuddwyd oedd sefydlu Amgueddfa Werin Sant Ffagan. Fe fu'n brwydro'n hir am hyn a chafodd dipyn o feirniadaeth unwaith eto ar hyd y ffordd, cyn llwyddo i gyflawni y gamp ym 1946.

Roedd yn ddydd oedd yn credu'n gryf iawn mewn rheswm ac mewn rhyddid, gyda llawer o'i gerddi yn cynnwys yr agweddau yma. Aeth Alun ymlaen i



siarad am ddwy o'i gerddi, y gyntaf 'Yr Hen Gapel' a ysgrifennodd i ddathlu 200 mlwyddiant sefydlu capel Lanbrynmair, a'r ail gerdd 'Robert Griffith Berry', oedd yn sôn am ein cyn weinidog ni ym Methlehem. Roedd R.G. Berry a Iorwerth yn ffrindiau ac yn edmygwyr mawr o'i gilydd. Mae'r ddwy gerdd yn hardd iawn ac roedd eglurhad a dehongliad Alun yn ysbrydoledig.

Diolch Alun am roi darlun llawer cliriach i ni o bersonoliaeth a bywyd y Cymro enwog hwn.

Yn ail ran y cyfarfod, fe gawsom ddathliad penblwydd go arbennig. Mae Eirlys Davies (sef Eirlys Cerith) newydd ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed. Roedd hyn sicr yn haeddu cacen – diolch, Marian, am y gampwaith, ac wrth i ni gyd-ganu penblwydd hapus, fe allwn ond edmygu pwy mor ifanc a sionc mae Eirlys yn cadw. Penblwydd Hapus iawn a phob dymuniad da Eirlys! (**Rhagor am y Cwrdd Merched ar y dudalen nesaf**)



## I Gaerfyrddin (*Mis Mawrth*)

Delyth Evans, Y Barri

Cyfarfu'r Cwrdd Merched yn y festri – heb fygydau! - brynhawn Mawrth yr 8fed. Y gŵr gwadd oedd y Dr. Huw Edwards, un sydd wedi dod yn gyfarwydd i ni fel un o fynychwyr cyson Suliau Bethlehem erbyn hyn. Bu Huw yn feddyg ymgynghorol ym maes Seiciatreg yn ardal Caerfyrddin am dros 30 o flynyddoedd. Wedi ymddol symudodd ef a Brenda, ei wraig, i ardal Caerdydd am resymau teuluol. Mae Huw yn ddarllenwr mawr a chanddo mae'n debyg digon o lyfrau i agor llyfrgell er mawr ofid i Brenda!



Bu Huw yn olrhain tipyn o hanes gofal iechyd meddwl yn y gorffennol. Wrth edrych nôl rhai canrifoedd roedd y dioddefwyr yn byw yn y gymuned oherwydd doedd dim gofal ffurfiol ar eu cyfer. Erbyn y 19eg ganrif roedd sefydliadau preifat i'r rhai oedd â theuluoedd oedd yn gallu fforddio eu danfon yno ond doedd fawr o driniaeth neu ofal yno. Yn wir roedd rhai yn ystyried bod mynd i ymweld a'r fath lefydd a chael hwyl am ben ymddygiad y trigolion yn rhyw fath o adloniant!

Agorwyd Ysbyty Dewi Sant, Caerfyrddin ym 1865, dan y teitl Carmartheshire, Cardiganshire and Pembrokeshire County Asylum gyda lle i ryw 200 o gleifion. Gyda sefydlu'r NHS ym 1948 daeth yn rhan o'r drefn honno ac ehangwyd y nifer o welyau sawl gwaith nes bod lle i dros 900 yno erbyn 1971. Ar y dechrau roedd rheolau llym yn bodoli. Cawsom gip ar lyfryn wedi ei argraffu oedd yn cynnwys y rheolau ar un cyfnod. Roedd yn rhaid i bob claf wisgo iwniform; roedd hwn yn naturiol yn amddifadu'r claf o unrhyw fath o hunaniaeth unigol. Roedd y bwyd yn ddiflas gan gynnwys uwd i frecwast. Anaml iawn y ceir unrhyw gig ar y fwydlen a byddai'r un saig yn cael ei weini yn fynych i ginio ganol dydd a'r pryd gyda'r nos. Dau berson yn unig fyddai'n gyfrifol am y lle yn ystod oriau'r nos gydag un yn mynd i nôl cymorth a'r llall yn gorfod aros yn yr

unfan os byddai argyfwng yn codi.

Am flynyddoedd lawer doedd fawr o driniaethau i'w cael, felly roedd rhai cleifion yn dal yn yr ysbyty am ddegawdau. Un driniaeth y clywsom sôn amdano oedd gosod y claf mewn baddon a throsglwyddo cerrynt trydan drwy'r dŵr, yna, wedi iddo ddod, allan tylino'r corff. Roedd yn anodd credu bod Huw wedi clywed bod Margaret Thatcher yn dilyn y driniaeth hwn!

Wrth i ddealltwriaeth gwell o iechyd meddwl wawrio daeth yr hen ysbytai meddwl i ben gyda'r cleifion yn cael eu trin mewn unedau sydd yn gysylltiedig ag ysbytai cyffredinol. Mae'r hen ysbyty Dewi Sant, lle bu Huw yn gweithio am ran helaeth o'i yrfa, wedi cau ond roedd o'r farn bod 'na le i ddymuno am cryn dipyn mwy o adnoddau ar gyfer iechyd meddwl heddiw.

Diolch i Huw am awr ddiddorol iawn.

***Rhag ofn byddwch chi am gyfeirio rhywun newydd i ddod i  
Fethlehem— dyma'r Cod Post ar gyfer ein Tŷ Cwrdd:***

**CF15 9HH**

*(Mewn argyfwng, mae'r gwasanaethau brys yn awyddus i wybod yr uchod pe byddai galw am anfon ambiwlans,  
heddlu neu frigâd dân i'r adeilad!)*

[Beth am roi hwn ar eich ffôn symudol, rhag ofn y daw'n fuddiol ryw ddydd!]

## Rhagor o Newyddion Bethlehem

**PENBLWYDDI** - Mae pob un o'n cyd-aelodau yn sicr o fod yn dathlu eu pen-blwydd rhywdro'r flwyddyn hon! Ond teg nodi fod yna glwstwr bach gydag achos i ddathlu cerrig milltir go arbennig o gwmpas Ionawr, Chwefror a dechrau Mawrth. Dydi'r canlynol ddim i gyd wedi cyrraedd yr un degawd â'i gilydd, ond gawn ni ddymuno pen-blwydd hapus iawn iddyn nhw: **Heulwen Jones** (Yr Eglwys Newydd), **Joy Glyn** Pentyrch), Rhodri-Gwynn Jones, (Pentyrch) **Eira Williams** (Pentyrch) \*a'i phriod, **Gwilym**, ymhen dyddiau wedi hynny, **Wyndham Richards**, (Radur) ac wrth gwrs, fel cyfeiriwyd yn y Cwrdd Merched, **Eirlys Davies** (Danescourt). Os gwyddoch chi am rywun ddylai fod ar y rhestr hon neu am rai sydd i ddod eleni, wel rhowch wybod i ni, (ymlaen llaw) da chi!



### ***Croeso i fabi newydd***

***Da cael cofnodi bod teulu Bethlehem yn ehangu!*** Ganwyd Tristan Owen ar fore'r 4ydd o Fawrth i Elen a Scott Mitchell, draw yn ardal Truro - brawd bach 10 pwys i Sofia, ac wŷr i Delyth a Peredur Evans, Yr Eglwys Newydd, dau o bileri'r gweithgareddau ym Methlehem.

### ***Ar y bocs***

Ofer fyddai cychwyn enwi'r aelodau sydd wedi ymddangos ar y cyfryngau dros y deufis aeth heibio! Gwelwyd wynebau cyfarwydd, boed yn gantorion, efaciwîs, arweinyddion, ymwelwyr o America... a rhag gadael neb allan, doethach dweud "da iawn" wrth bawb!

## Bedydd Dafydd Rhys



Dafydd Rhys, mab Marged a Daniel Wyatt, yn cael ei fedyddio gan Delwyn ar fore Sul, Chwefror 6<sup>ed</sup>, 2022 (o hanner hirbell, yn unol â'r canllawiau COVID fel roedden nhw'n dal i fod yr adeg honno!). Yno hefyd i gadw golwg ar y gweithgareddau roedd ei frawd mawr, Wil, ynghyd â'r teulu Wyatt o Bontypridd a'r Jonesiaid o Bentyrch. (Yn nyfnder y pandemig bu Dafydd'n anfon colofn o sylwadau aton ni ddarllenwyr y Gair Bach, er rydyn ni'n amau bod taid Pentyrch, ein hysgrifennydd Rhodri-Gwynn, neu mam-gu Ann, wedi bod yn ei gynorthwyo ar y cyfrifiadur ar y dechrau'n deg.)

Gair gan y Trysorydd

Peredur Evans

## CYFRANIADAU BLYNYDDOL


**Bydd blwyddyn ariannol Bethlehem yn dod i ben ar y 5ed o Ebrill, 2022.**

Os ydych am gyfrannu cyn diwedd y flwyddyn ariannol gallwch wneud hynny drwy un o'r dulliau canlynol:

- (i) Rhoi eich cyfraniad yn eich amlen gasglu yn y blwch casglu yn y capel, **neu**
- (ii) Gyrru sic yn daladwy i "Bethlehem Gwaelod y Garth" ataf fi,  
Peredur Evans, 23 Alfreda Road, Caerdydd. CF14 2EH, **neu**
- (iii) Trosglwyddo eich rhodd yn uniongyrchol i gyfrif y capel ym Manc NatWest:  
Rhif Adnabyddiaeth Cangen: **53-70-30**  
Rhif y Cyfrif: **00914495.**  
Enw'r cyfrif: 'Trustees of Bethlehem Chapel Gwaelod-y-garth'.

Os ydych yn trosglwyddo eich rhodd i'r banc gofawch fod y cyfeirnod yn enwi'r rhoddwr/wyr yn glir neu fydd dim modd inni hawlio'r Rhodd Cymorth yn ôl ar eich rhodd.

## Yr Wcráin ac Afghanistan - rhagor am gyfraniadau Bethlehem



### Cyfraniadau dyngarol – Wcráin ac Afghanistan

Fel gwyddoch, mae Bethlehem yn cyfrannu'n chwim ac yn gyson at achosion lleol a rhyngwladol.

Yn fwyaf diweddar, rydyn ni wedi anfon £1500 at gasgliad DEC i gefnogi'r gwaith dyngarol wedi'r ymosodiad ar yr Wcráin.

Os hoffech chi anfon rhodd tuag at gyfraniad DEC Bethlehem, neu unrhyw achos rydyn ni'n gefnogi, yna mae manylion ein Trysorydd ar y dudalen flaenorol.

Ar y chwith fe welwch nodyn o gydnabyddiaeth oddi wrth Urdd Gobaith Cymru am ein rhodd i helpu'r gwaith gyda'r 72 o blant o Afghanistan fu'n cael lloches am 6 mis yn y Gwersyll yn yBae.

## Oedfa Bore Gŵyl Dewi 2022

Bore Mawrth oedd bore Dydd Gŵyl Dewi eleni, ac er iddi fod yn oedfa fer, wedi ei threfnu a'i harwain gan y Parchedig Ddr R. Alun Evans, roedd nifer yn cymryd rhan, ac yn y gynulleidfa, fel y gwelwch isod:



# "The great gates of Kiev"

Wrth i ni wyllo a rhyfeddu at y delweddau torcalonnus o'r gyflafan yn Wcráin, mae'n werth eistedd i lawr a gwrando ar fiwsig gyfansoddwyd gan Mussorgsky o'r enw "The great gates of Kiev". Darn sydd yn rhoi awgrym i chi o gymeriad a phersonoliaeth pobl Wcráin. Dwi'n cofio y perfformiad cyntaf i mi glywed o'r darn oedd mewn cyngerdd yn Eglwys Gadeiriol y brifddinas, Kiev, fel oedd enw y lle bryd hynny.

Dwi'n foi emosiynol pan ddaw hi i gerddoriaeth. Cord arbennig, neu frawddeg o fiwsig, yn fy anfon i grio'n hawdd iawn. Fe ddaeth deigr yn o glywed y dehongliad cyntaf hwnnw, yn benodol pan fo'r organ yn ymuno yn y symudiad. Mae organ rhywsut yn gafael ynof ac yn chwalu pob ymdrech ar reoli emosiwn.


Darn llawn symboliaeth ydi gwaith Mussorgsky. Goruchafiaeth trigolion Kiev, gyda'r giatiaeu enfawr ar bedwar porth y ddinas yn llwyddo i gadw'r gelynyion draw. Mae 'Finlandia' gan Sibelius yn dathlu yr un fath o oruchafiaeth, ar yr un gelyn, sef Rwsia.

Dydwi i ddim yn gwybod ystyr geiriau y 'chant' yng ngwaith Mussorgsky, ond mae geiriau y corws yng ngwaith Sibelius yn annog pobl Finland i gredu yn y gwir ac i weld gobaith wedi'r frwydr fawr am eu hannibyniaeth o Rwsia.

Alla i ddim llai na gobeithio bod geiriau corws 'Finlandia' yn ysbrydoliaeth i drigolion truenus Wcráin:

*Ffindir, wele dy ddydd yn gwawrio  
Ymlidiodd y bore dy nos*

*Trechodd y bore fygythiad y nos  
Daeth dy ddydd, fy mamwlad.  
Cyfod Ffindir, wyneba'r dyfodol yn falch  
Cyfod Ffindir, a datgan i'r byd  
Cofia dy ddewr orffennol  
Yn chwalu'r caeth holl hualau  
Y Ffindir, wele daeth dy dydd*



## NODYN I'CH DYDDIADUR

### **Ebrill 2**

Fel rhan o'r ymgyrch "[Eglwysi Dementia-gyfeillgar](#)" bydd sesiwn arbrofol yn cael ei chynnal ym Methlehem, Gwaelod-y-garth ar bnawn Sadwrn yr 2il o Ebrill, dan nawdd Cyfundeb Dwyrain Morgannwg, yng nghwmni Delwyn Sion, y Parchedig R Alun Evans a Sian Meinir.

### **Ebrill 5**

**Sylwer: Newid Dyddiad i'r Cwrdd Merched nesaf**  
Emma Berry yn son am waith Mudiad Achub y Plant

### **Ebrill 24**

**Teilwng yw'r Oen**  
ym Methlehem am 5.00 yr hwyr

## “Ar ryw b’nawn dydd Sadwrn glawog”

Trafod trip i rywle oedd John a minnau. Taith rhyw hanner awr a phryd bach o fwyd! “Heb fod yn ardal Ewenni ers blynyddoedd” meddwn ac, o edrych ar y we, roedd y “Fox” yn lle bach am ‘brydyn’ yn swnio’n ddeniadol.

Bore Sadwrn ddaeth – “glaw gyrru” a dyma stop ar ein taith. Aeth J. i bori am wybodaeth am ‘Y Priordy.’ Daeth ar draws llyfr Aneurin Talfan Davies, sef BRO MORGANNWG ac, wrth gwrs, gwyddai’r ddau ohonom am enw ‘Matthews Ewenni’. Wel, dyna foi diddorol ar ddiwedd y 19eg ganrif! Pregethwr dramatig iawn – cymaint oedd o’n cyfareddu’r gynulleidfa neu godi braw. Dwedodd Thomos Gee amdano “Dyma’r dramatist mwyaf a esgynnodd i bulpud erioed.” Aeth ymlaen i gofnodi fod ‘Etwart’ wedi denu Henry Irving i wrando ar ei bregeth yn Shirland Road yn Llundain. Ddeallodd o ddim gair ond ei eiriau oedd “Pe buasai’r gwr yma wedi ymgyflwyno i’r ddrama byddai’n un o’r ‘actors’ mwyaf a welodd y byd.” A dramâu i’w hactio oedd llawer, os nad y cwbl, o’i bregethau.



Disgrifiai gwraig leol, yn ei Chwmra’g bendigedig, y gwr rhyfeddol yma: “O daldra cymedrol nawr...ond dyma ichi ben. Yr un mwya weles i erio’ d... ro’dd e’n shafio’i wyneb yn lân... tipyn o steil ynddo fe, welwch chi, ac mi fyddai’n cadw’i wallt lawr yn isel ar ‘i dalcen fel nad oedd dim ond ‘i hanner yn y golwg... rhes o’r dannedd glana’ welsoch chi erio’ d. Pan ro’dd yn y pulpud ro’dd e’n sefyll yn syth, fel lein, ond bydda fe’n gaf’el yng nghongle’r Beibl ac yn eu troi nhw nol a mla’n.” Dangosodd y wreigan Feibl Edward Matthews oedd wedi rhwygo ac meddai “mi fydde’r capeli o gwmpas yn rhoi hen Feibl a Llyfr Emytau iddo pan ddeuai ar ei rawd.”

Ac yn ôl pob sôn bu’n pregethu yn Salem, Treganna, yn 1887. Cymaint oedd ei ddylanwad ar ei ddeiliaid tra’n traddodi pregeth ‘Y Mab Afradlon’ ac wedi personoli’r ddrama fel mai fe, ‘Etwart’, oedd y mab oedd yn gwrthod cyd-wledda. “Wedi eu llwyr gyfareddu” meddai un o’r gynulleidfa. “Gadewch i’r diawl fynd mas i’w grogi a cherwch chi ‘mlân.”

Dro arall, eto yn Salem (g’neud ichi feddwl pa mor ‘gullible’ yw’r Methodistiaid!) roedd wedi’i gythruddo gan sylwadau’r ‘higher critics’ yn yr Almaen! Wedi codi’i destun aeth ymlaen i droi tudalenna’r Beibl gan roi ‘running commentary’ ar y gwahanol lyfrau. Erbyn y diwedd roedd y gwahanol ‘lyfrau’ yn domen ar lawr y

pulpud. Dyma ddyfyniad o’i anerchiad. *“Ma nhw weti ffindo mes, ichi’n gweld, ma’ celw’dd yw llawar o’r Hen Air ‘ma...otyn siwr...’Does neb yn Germany ‘co ‘nawr yn cretu’r gwyrthia, ‘lwch chi. Taflwch yr hen betha ‘ma i’r domen, da chi.....A pheth os bu E’ farw ar y groes? Onid yw pawb yn marw?.....’does dim gwatu ar hynny... a ma Fe wedi marw...rhaid i gladdu E ... .deddfa iechyd sy’n galw am hynny, ‘lwch chi, rhag iddo fod fel Lazarus yn drewi ‘lwch chi... ..ia claddwch E o’r ffordd...”*

Mi wisgodd ei got a chychwyn am adre ar ôl dweud *“does dim sens mewn pregethu celwydda... Lle ma nghot i, i mi ga’l y’ch gatal chi “ – ac anelu am y drws.*

O dan deimlad gwaeddodd rhyw ddynes fach “Rhag y’ch cywilydd chi Mr Matthews. Ewch yn ôl i’r pulpud , canys mi a wn i bwy y credais... dotwch y Beibl yn ôl yn ei le.” Aeth yn ôl i bregethu...*“Gwywa y gwelltyn, syrth y blodeuyn.....”*

Ar ol sawl paned goffi yn mwynhau’r arlwy yma, syrthiodd fy llygaid ar ein Beibl ni yn Radur a’r stori y tu ôl iddo. T.J., (pwy arall?) ddaeth draw un bore. Roedd wedi traddodi darlith/pregeth ar Peter Williams a’i Feibl. Doedd ganddon ni, fel teulu, ddim Beibl teuluol. Yn aml y plentyn hyna’ sy’n etifeddu hwnnw a dydyn ni’n ddau ddim yn syrthio i’r categori yna! Soniwyd am hyn efo T.J. a chyn hir daeth acw a bag plastig yn ei feddiant – Beibl Peter Williams!

Llinos Davies (o Dongwynlais) oedd perchen y Beibl. Aelod ym Methlehem, oedd yn weddw a di-blant. Trafod pregeth y Gweinidog oedden nhw pan ddywedodd Llinos, “Mae gen i Feibl Peter Williams ond fydd gan neb o nheulu ddiddordeb ynddo fe.” Ateb ‘syth bin’ T.J. “Wel mae gen i deulu, chi’n eu nabod, sy’n aelodau ym Methlehem. Meddai Llinos “Buaswn wrth fy modd yn ei roi iddyn nhw.” **(Parhad ar y dudalen nesaf).**



A dyna daro'r fargen. Roedd y meingefn yn rhydd o weddill y Beibl (fel un Edward Matthews) ond cawsom afael ar arbenigwr yn Aberystwyth a'i trwsiodd.

Heb os y trysor i ni oedd sylwade Llinos a ysgrifennodd atom gan olrhain hanes 'Y Bibl' ys dywaid hi. Ei Thad (John Evans o Ddiheuid) oedd perchen y Beibl. Daeth i lawr i'r Rhondda, i'r pwll glo a thra'n aros am y 'tram' i fynd i weld ei chwaer yn Clydach Vale gwelodd Feibl mewn 'Pawn shop'. Dwi'n dyfynnu o'i llythyr i ni.

"Dywedodd wrtho'i hun fod tŷ heb Feibl yn dy gwag a rhaid oedd datrys y broblem ar unwaith. Roedd arian yn brin bryd hynny (Cyflog fy nhad oedd £1 a deg swllt yr wythnos) Ond dyma fe yn mentro. Gofynnodd yr Iddew "Coron" sef pum swllt a Nhad, fel Cardi craff, yn ymgeisio fargeinio gydag ef. Ateb yr Iddew oedd "Read this book, (the first half at least,) and you will have more than one crown in Heaven". Cafodd y Beibl le parchus ar ganol y ford gron yn y parlwr gyda llunie rhai o'm cyn-deidiau o'i amgylch. Da gwybod fod ein Beibl ni yn cael y parch sy'n ddyledus iddo gan deulu Marian a John yn 10 Windsor Road, Radur. Pob bendith. Llinos Davies." Wn i ddim am ei gadw mewn lle 'parchus' ond mae'n cael 'parch'. Mae'r tudalennau blaen sydd i fod i gynnwys y 'Portrait Gallery' yn wag. A ddylsem gofnodi ein "coeden deulu" yma? Cafodd ofal yma ac ry'n ni mor ddiolchgar am ei etifeddu. O leia, mae ei glawr a'i gynnwys yn gyfan tra bod Beiblau 'Etwart' Matthews yn rhacs ar ôl y tân a'r brwmstan yn ei galon!

\* \* \* \*

## **Wel, 'drychwch - mewn difrif!**

Mae'n syndod cymaint allwch chi ddysgu o ddarllen papurau bro. Dyma ganfu ein hysbiwr yn Nyffryn Nantlle yn y rhifyn diweddaraf o "Lleu".

Wele, (ar y dde) hanes "bywyd roc a rôl" awdures yr erthygl uchod – neb llai na Marian Ifans ei hunan – yn ei dyddiau'n canu gyda'i dwy chwaer (Eryl ar y chwith, a Heulwen yn y canol).

RHIF 538 • MAWRTH • 2022

# Y stori tu ôl i'r gân

*Cyfes yn chwilota am straeon tu ôl i gân neu grŵp o'r dyffryn. Mae traddodiad mor gyfoethog o ganu yn y Nyffryn Nantlle, anfonwch stori sydd gennych at Lleu i'w rhannu.*



## **BRETHYN CARTREF, triawd o Nantlle, 1969**

Tybed ble oeddech chi ym 1969? Wel, mi fedr sawl un ddweud eu bod yng nghanol miri'r Arwisgo (coroni Charles yn Brins of Wales) yng Nghaernarfon.

Ond roedden ni ein tair, Eryl, Marian a Heulwen, yr ochr arall i Glawdd Offa yn Lerpwl yn recordio ein caneuon ar gyfer gwneud EP. Na, nid yn Abbey Road (stiwidio recordio'r Beatles) oedden ni, ond yng nghartref y Parch Ddr. D. Ben Rees, Lerpwl, yn y parlwr ffrynt, yn canu!

Tair chwaer o bentref Nantlle ydy'r 'Brethyn Cartref', wedi eu geni a'u magu yn 'Cartref', gyferbyn â'r capel. Roedd yr aelwyd yn gerddorol gan fod ein tad a mam wedi canu mewn corau pan yn ifanc. Erbyn canol y Chwedegau, roedd Eryl yn athrawes yn Ysgol Bryntaf, Caerdydd; Marian yn athrawes yn Grangetown,

Caerdydd a Heulwen yn Fetron yng Ngholeg Amaethyddol Llysfasi.

Yn ystod y cyfnod canu, roedd bardd o Benygroes, sef y diweddar John Llywelyn Roberts, yn ysgrifennu geiriau, ac Eryl a Marian yn llunio'r alawon a'r harmoniau – mewn sol-ffa. Byddai rhaid eu danfon at Heulwen, ac yna ddod ar y ffôn i wrando ar ein gilydd. Fyddai yna byth amser i ymarfer gan ein bod yn byw mor bell oddi wrth ein gilydd. Cawsom gyfle i ganu ar raglenni megis 'Disg a Dawn', 'Ryan a Ronnie' a Gŵyl Fawr Aberteifi, a lluo o gyngherddau eraill.

Anodd credu fod dros hanner canrif wedi mynd, ond mae'r dair ohonom yn dal i ganu – Marian yn aelod o gôr Hen Nodiant yng Nghaerdydd a Heulwen ac Eryl yn aelodau o Gôr Cofnod, Caernarfon. Mae'r dair ohonom yn dal i fwynhau cyd-ganu a dysgu gwaith newydd.



## Odlau'r Garth 1

Llongyfarchiadau i Hannah Roberts ar ennill y gadair yn Eisteddfod Llanfihangel -ar -Arth. Dyma'r ail gadair ar hugain iddi eu hennill mewn eisteddfodau lleol a rhanbarthol. Wele'r gerdd fuddugol:

## CYSGOD

Mewn cwpan o gwm,  
mewn cylch o gysgod,  
mae llan yn llechu

Yma,  
yn y fangre hon,  
drwy lygaid lliwgar,  
mae golau yn chwarae gêm.  
Pelydrau a'u llafnau  
yn gwyro  
i greu ei gwarel o gaddug.

Yn uchel ar ei echel,  
uwchben ,  
yn ddyrchafedig,  
yn y canol ,  
mae cerflun,  
a'r haul mwyn ar alwminiwm.  
Yma,  
mae'r Epstein,  
a'u Grist yn ei ogoniant,  
dwy gledr yn agored,  
dwylo a hól yr hoelion.

Ond,  
mae deuawd yn y dwylo hyn,  
mae eto bâr ar bared,  
Crist eilwaith wedi'i hoelio,  
a'r golau a'i gysgod  
yn chwarae y gêm.

Wrth ddringo o'r cwpan hwn o gwm,  
mae cysgodion y gorffennol,  
y gwreiddiau o grefydd,  
yn goleuo a mwytho fy myd.

*Hannah Roberts*

*Ar achlysur dathlu pen-blwydd Wyndham Richards yn 80 mlwydd oed, daethom i ddeall fod y Prifardd Aled Gwyn, ar anogaeth dau o aelodau newydd Bethlehem, wedi cyfansoddi englynion i gyfarch y bonwr. Dyma nhw:*

I Wyndham ar gyrraedd y pedwar ugain

Ffrind hynaws, cawr y Trawscoed, - annwyl yw,  
Crwt y wlad o'i faboed  
A nawr, pedwar ugain oed;  
O'i yngan sy'n ieuengoed.

Heddiw rhed y darlledwr - am ei gant  
Dyna gamp i'r bonwr;  
Mwyn ei dinc, ac mae yn dwr  
I'w anwyliaid, mae'n wylwr.

Llywiodd ei yrfa'n llawen - yn y Bib  
Yno bu'n ei elfen;  
Oes o waith, cynnes ei wên,  
Hwn a gafwyd yn gefen.

Dygodd o Geredigion - i'r ddinas  
Ei ddoniau yn gyson,  
A'i arlwy o Fynwy i Fôn  
Yn addurn i'r Newyddion.

Gydol yr holl ddegawdau - yn hirben  
Di-arbed ei dasgau;  
Nid oes sgôr o'r trysorau  
Roes gysur i'r bur hoff bau.

Yn Wyndham nid oes gwendid - a nerthol  
Ei werthoedd cynhenid  
A'i lawnder sy'n galonid,  
Un da yw nid un di-hid.

Un ieuanc ymhob tywydd, - a heddiw  
Mae'n haeddu ein clodydd;  
Ar dy ben doed llawenydd-  
Rhaid mynnu dathlu y dydd

*Aled Gwyn*

## Odlau'r Garth 2

### CADW

*(rhan o'r dilyniant buddugol)*

Dishgwl, y niwl yn crynhoi ar gopa'r mynydd  
fel twlu llien dros ford hir cyn gwerthu celfi  
Mam-gu.

Y diwrnod 'ny,  
wrth i'r cols gwmpo mewn tân gwidw,  
doedd dim  
ond tician gwawdlyd y cloc  
tra o'dd curiad ei chalon ar stop.  
Dy wyneb yn fasg  
mewn stafell lle o'dd gole'n gwanhau.

O'r diwedd, ti'n gwenu.  
Llifa'r atgofion nôl, siwr o fod:  
neb yn ynys dan ddaear  
mewn talcen caled, ysgwydd wrth ysgwydd.

Cymint o lo ar ôl,  
dim modd ei gyrredd.

Fel hyn y mae, yr offer weindo wedi rhwdu,  
y clo'n sownd ar y glwyd.

Sefwn ni yn y car  
a gwylio'r gwynt a'r glaw  
sy wedi erydu'r mynydd  
ers cyn cof.

Pam, Dad?  
O'dd wyneb metron fel talcen tŷ:  
ti'n llusgo dy gês o'r cwpwrdd.  
"Wy'n dala'r trê'n nesa,' meddet ti.  
'Chi wedi anghofio rhywbeth, Mr Richards?'

Wedest ti dy fod ar y ffordd  
i Anti Maud yn Ynysmeudwy.  
Grynda, ma' hi wedi mynd  
ac est ti draw amser y Coroni  
pan o't ti'n ddeg.

\* \* \* \* \*

*Llongyfarchiadau i Martin Huws, Ffynnon Taf, ar ennill y Gadair yn Eisteddfod Caerdydd 2022 ar 22 Ionawr. Darlledwyd Seremoni'r Cadeirio ar y we oherwydd y cyfyngiadau. Roedd 17 wedi cystadlu a daeth Martin i'r brig am ei ddilyniant o gerddi ar y testun "Cadw". Martin hefyd enillodd Fedal y Prif Lenor am ddarn o ryddiaith ar y testun: "Croesffordd". Roedd 14 wedi cystadlu.*



Mewn â ti, bydd yn garcus, stepen.  
Dere i ga'l twymad.  
Yn y caffi clyd y te'n felys  
a Nia yn ein cyfarch ni â'i gwên radlon.  
'Mr Richards, chi'n dishgwl fel y boi.'

Paid delwi, Dad. Gan bwyll, gormodd ...  
tr'eni, y twlpe siwgyr  
yn toddi fel cello'dd ymennydd.

'Edrych, poster ar y wal, panto.' Dic  
Tyrpin.  
Pan o'n i'n ishte ar dy gôl  
yn y Miwni yn Ponty o'n i'n gweiddi nes  
'mod i'n gryg  
bob tro y llwyddai i stopo'r goetsh.

'Beth? Ti'n barod i fynd?'  
Dim amynedd erbyn hyn, o's e?

'Na olwg,  
fel 'se rhyw walch yn arllws y game i gyd  
mewn i gwdyn  
cyn i'w geffyl garlamu i'r gwyll.

**Martin Huws**